

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Datganiad Ansawdd Blynyddol

2019 i 2020

13 Mai 2020



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Tabl Cynnwys

Gair o groeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	4
Gwybodaeth am y Datganiad Ansawdd Blynyddol	6
Themâu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol	6
Y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu.....	8
.....	8
Proffil y Bwrdd Iechyd	9
Gwasanaethau Arbenigol.....	11
Cadw'n iach.....	12
Astudiaeth achos "Cadw'n iach": tîm perffaith anableddau dysgu	16
Astudiaeth achos "Cadw'n iach": cefnogi gofalwyr	17
Gofal Diogel.....	18
Astudiaeth achos "Gofal Diogel": hyfforddiant ar ddefnydd priodol o fenig	22
Astudiaeth achos "Gofal Diogel": ar rhest fer tîm y flwyddyn – diogelwch y claf	23
Gofal Effeithiol	24
Astudiaeth achos "Gofal Effeithiol": Trawsblaniad Microbiota Ysgarthol.....	27
Gofal Urddasol.....	28
Astudiaeth achos "Gofal Urddasol": siarter i sicrhau hawliau pobl sydd ag anableddau dysgu	29
Astudiaeth achos "Gofal Urddasol": hyfforddiant gofal dementia.....	30
Astudiaeth achos "Gofal Urddasol": llawfeddygaeth ddydd – sicrhau urddas ar gyfer cleifion trawsryweddol ..	31
Gofal Amserol.....	32
Astudiaeth achos "Gofal Amserol": <i>Twilight Sanctuary</i>	36
Astudiaeth achos "Gofal Amserol": Canolfan Gofal Integredig Aberteifi	37

Gofal Unigol.....	38
Astudiaeth achos “Gofal Unigol”: gwrando ar ein defnyddwyr gwasanaeth – rhoi dewis ar gyfer paratoi’r coluddyn	41
Astudiaeth achos “Gofal Unigol”: Siarter ar gyfer Gwella Profiad y Claf	42
Staff ac Adnoddau	43
Astudiaeth achos “Staff ac Adnoddau”: fferylllydd y flwyddyn	47
Astudiaeth achos “Staff ac Adnoddau”: Gwobr Seren Cavell am gyfraniad rhagorol i nyrsio anabledau dysgu	48
Astudiaeth achos “Staff ac Adnoddau”: cydnabyddiaeth o ymrwymiad amhrisiadwy i addysgu’r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol	49
Astudiaeth achos “Staff ac Adnoddau”: Sgrinio Ffordd o Fyw	50
Ein hymrwymiad ar gyfer 2020/21: Gair i Gloi gan Gadeirydd ac Arweinydd Gweithredol y Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad	51
Gwasanaethau Cefnogi Cleifion (adborth a chwynion): Rhannu eich profiadau	53



Mae fformatau eraill a phrint bras ar gael ar gais trwy ffonio 01267 239554

Gair o groeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Rydym yn falch iawn o gyflwyno Datganiad Ansawdd Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 2019 i 2020. Mae hyn yn rhoi crynodeb i chi o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn dangos ein hymrwymiad i wella ansawdd ein gwasanaethau ac i ddiwallu anghenion ein cleifion ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a'r ffiniau.

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol wedi caniatáu inni ystyried yr ymrwymadau a wnaed yn natganiad y llynedd ac arddangos y gwaith sydd ar y gweill neu wedi'i gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau. Mae hefyd yn rhoi cyfle inni dynnu sylw at gyflawniadau rhyfeddol ein staff a'r gwobrau y maent wedi'u hennill dros y flwyddyn am eu hymdrechion sylweddol a'u gwaith arloesol i wella gofal cleifion. Nid yw'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn cwmpasu'r holl waith rydym wedi'i wneud yn ystod 2019 i 2020 ond mae'n rhoi enghreifftiau o'r hyn yr ydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Hyd eithaf ein gwytodaeth, mae'r wybodaeth a ddarperir yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol hwn yn rhoi darlun cywir a chynrychioliadol o ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn a'r gwelliannau yr ydym yn eu hyrwyddo ar gyfer pobl Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol wedi bod yn destun craffu Archwilio Mewnol a dyfarnwyd lefel o sicrwydd sylweddol.

Rydym yn monitro ein systemau a'n prosesau yn barhaus fel y gallwn ddysgu a gwella i sicrhau gofal diogel ac o ansawdd uchel. Rydym yn croesawu eich adborth ar ffurf cwynion, pryderon a chanmolïaeth ac yn darparu amryw o ffyrdd i chi allu gwneud hynny. Rydym yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned sy'n rhoi adborth annibynnol inni o ymweliadau â'r Bwrdd Iechyd, ac yn sicrhau ein bod yn gweithredu ar eu hargymhellion.

Ddiwedd mis Mawrth 2020 gyda dechrau'r pandemig COVID-19 aethom i fyd gwahanol iawn yn y Gwasanaeth Iechyd. Mae pob un o'n timau, ein holl bartneriaid a'n cymunedau wedi dod at ei gilydd i roi'r gofal a'r gefnogaeth gorau posib. Mae wedi bod yn ysbrydoledig gweld a bod yn rhan o'r ymateb hwnnw. Ansawdd gofal yw'r peth pwysicaf i ni, a gwnaed ein gallu i gynllunio ac ymateb i'r pandemig yn haws gan sylfaen ansawdd y gofal a osodwyd cyn hyn, a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Diolch o galon i bawb sydd wedi gweithio mor galed i wneud hyn yn bosib. Rydym yn falch iawn ohonoch ac yn ddiolchgar i chi i gyd.



Maria Battle, Cadeirydd



Steve Moore, Prif Weithredwr

Gwybodaeth am y Datganiad Ansawdd Blynyddol

Croeso i'n Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2019 i 2020. Mae'r ddogfen hon yn gyfle inni rannu gwybodaeth â chi ar lle yr ydym arni i sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion lleol ac yn bodloni safonau uchel. Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn gyfle i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddangos, mewn ffordd agored ac onest, sut mae'n perfformio a'r cynnydd a wneir i sicrhau bod yr holl wasanaethau a ddarparwn yn bodloni'r safonau uchel sy'n ofynnol.

Cyflwynir y Datganiad Ansawdd Blynyddol dan saith thema, gyda phob thema'n sail i ansawdd a diogelwch y gofal a ddarparwn. Mae tair cydran i bob thema:

- Sut wnaethom gyflawni'r ymrwymiad a wnaed yn 2019/20
- Llwyddiannau a heriau
- Ein hymrwymadau ar gyfer 2020/21.



Themâu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol

Cadw'n iach – sut yr ydym yn sicrhau bod pobl yn Hywel Dda yn wybodus i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Gofal Diogel – sut yr ydym yn sicrhau bod pobl yn Hywel Dda yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a'u cefnogi i amddiffyn eu hunain rhag niwed hysbys.

Gofal Effeithiol – y trefniadau sydd gennym mewn lle i bobl Hywel Dda i gael y gofal cywir a'r gefnogaeth gywir mor lleol â phosib, ac i'w galluogi i gyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiannus.

Gofal Urddasol – sut yr ydym yn sicrhau bod pobl yn Hywel Dda yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn trin eraill yn yr un modd.

Gofal Amserol – y trefniadau sydd gennym i sicrhau bod pobl yn Hywel Dda yn cael mynediad amserol at wasanaethau yn seiliedig ar anghenion clinigol a'u bod hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu gofal.

Gofal Unigol – sut yr ydym yn trin pobl yn Hywel Dda fel unigolion, gan adlewyrchu eu hanghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain.

Staff ac Adnoddau – y wybodaeth sydd ar gael gennym ar gyfer pobl yn Hywel Dda i ddeall sut mae eu Gwasanaeth Iechyd yn cael ei adnoddau, a dangos yn glir sut yr ydym yn gwneud defnydd gofalus o'r adnoddau hynny.

Yn y ddogfen, lle'r ydym yn darparu gwybodaeth ar sut y gwnaethom gyflawni'r ymrwymïadau a wnaed yn 2019/20, fe welwch amryw o symbolau wyneb lliw sy'n nodi a ydym wedi cyflawni'r targed neu a ydym wedi gwella:



Cyflawni'r targed neu wedi gwella



Gwella rhywfaint, ond heb
gyflawni'r targed



Heb gyflawni'r targed na gwella


Y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu



Twf poblogaeth: Amcangyfrifir mai cyfanswm poblogaeth Hywel Dda yw 385,615 a rhagwelir y bydd yn codi i 425,000 erbyn 2033.



Poblogaeth sy'n heneiddio: Mae cyfartaledd oedran pobl yn Hywel Dda yn codi'n raddol. Rhagwelir y bydd y nifer bresennol o bobl dros 65 oed yn cynyddu o 88,200 (2013) i 127,700 yn 2033. Ar hyn o bryd, mae 3.2% yn 85 oed neu hŷn (yr ail uchaf yng Nghymru). Mae'r nifer o bobl sy'n darparu gofal di-dâl i berthnasau hefyd yn cynyddu.



Patrymau newidiol afiechyd: Mae diabetes ar nifer gynyddol o bobl yn ein hardal ac mae gan fwy o bobl ddementia wrth i'r boblogaeth heneiddio. Mae'r nifer o bobl sydd â mwy nag un salwch hirdymor yn cynyddu. Yn 2018 cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarlun cenedlaethol ar faich afiechyd ar Gymru. Dengys mai canserau, clefyd cardiofasgwlaidd, cyflyrau cyhyrysgerbydol, afiechyd meddwl a chamddefnydd sylweddau yw prif achosion marwolaeth yng Nghymru.



Tybaco: Mae bron un ym mhob pum (18.7%) oedolyn yn ein hardal yn 'smygu. Er bod y nifer hwn yn parhau i ostwng, mae defnydd tybaco yn parhau i fod yn factor risg sylweddol i lawer o afiechydon, yn cynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, canser yr ysgyfaint a marwolaeth gynnar.



Bwyd: Nid yw dwy ran o dair o boblogaeth ein hardal yn bwyta digon o ffrwythau a llysiau, ac mae dros tri ym mhob pump dros bwysau neu'n or-dew. I rai pobl mae'n anodd cael gafael ar fwyd iach, fforddiadwy.



Gweithgarwch corfforol: Nid yw dros 40% o oedolion ein hardal yn ymarfer corff yn ddigon rheolaidd er budd eu hiechyd. Mae bron traean ein poblogaeth yn anactif.



Arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd: Mae 16.2% o'n poblogaeth yn dweud eu bod yn teimlo'n unig



Y Gymraeg: Cyfran preswylwyr Hywel Dda o bob oed sy'n medru'r Gymraeg yw 46.6%.



Anghydraddoldebau iechyd: Mae amrywiad mewn ymddygiadau iach yn arwain at amrywiad mewn canlyniadau iechyd yn Hywel Dda ac mae lefelau amddifadedd yn dylanwadu ar hyn hefyd. Er enghraifft, er bod y nifer sy'n 'smygu yn Hywel Dda wedi gostwng, mae cymunedau yn ardal y bwrdd iechyd lle nad yw cyfraddau 'smygu wedi newid. Mae'r cymunedau hyn [Llanelli a Doc Penfro] yn ogystal ag Aberteifi yn ardaloedd o amddifadedd yn Hywel Dda. Mewn ardaloedd llai difreintiedig, yn aml mae pocedi o amddifadedd cudd.



Proffil y Bwrdd Iechyd

385,615

Rydym yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu **385,615** yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a'r ffiniau

25%

Rydym yn gweithio ar draws **chwarter** más tir Cymru



Mae bron chwarter ein poblogaeth dros **65** oed.

3,142



Mae **2,928** o fabis yn cael eu geni yn ein hardal bob blwyddyn

Mae gennym lai o bobl **25-44** oed a mwy o bobl **55-79** oed.

Mae yma ardaloedd o **amddifadedd** yn cynnwys rhannau o **Lanelli, Doc Penfro** ac **Aberteifi**. Mewn ardaloedd llai difreintiedig yn aml ceir pocedi o amddifadedd cudd.

11,180

Rydym yn cyflogi **11,180** aelod o staff.



Mae gennym **bedwar** prif ysbyty:

Bronglais yn Aberyswyth;
Glangwili yng Nghaerfyrddin;
Tywysog Philip yn Llanelli; a
Llwynhelyg yn Hwlfordd



Y llynedd, gwnaethom:

Helpu **151, 248** o bobl trwy ein Hadrannau
Achosion Brys



Mae gennym **saith**
ysbyty cymunedol:



Dyffryn Aman a
Llanymddyfri yn Sir
Gaerfyrddin
Tregaron, Aberaeron ac **Aberteifi** yng
Ngheredigion;
Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ysbyty
De Sir Benfro a **Dinbych-y-pysgod** yn Sir Benfro.



Gofalu am **62, 177** o gleifion
mewnol yn ein hysbytai.

Mae gennym:
48 meddygfa;
47 deintyddfa a **3** phractis orthodonteg;
99 fferyllfa gymunedol;
61 practis offthalmeg cyffredinol;
11 canolfan iechyd;
Lleoliadau niferus yn darparu gwasanaethau
iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

Mae gwybodaeth bellach ar nodweddion gwarchodedig ar draws ein tair sir, yn seiliedig ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011, wedi'i chynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024.

Gwasanaethau Arbenigol – gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ag ystod o gyflyrau anghyffredin a chymhleth. Nid ydynt ar gael ym mhob ysbyty lleol oherwydd mae'n rhaid iddynt gael eu darparu gan dimau arbenigol o feddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Yn wahanol i'r mwyafrif o ofal iechyd, sy'n cael ei gynllunio a'i drefnu'n lleol, mae gwasanaethau arbenigol yn cael eu trefnu'n genedlaethol gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ran y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gweithio'n agos gyda'r byrddau iechyd i sicrhau bod unrhyw wasanaethau arbenigol a gomisiynwyd o safon uchel ac nad oes unrhyw bryderon yn cael eu nodi o safbwynt ansawdd. Maen nhw'n gwneud hyn ar ein rhan trwy fframwaith sicrwydd ansawdd sy'n cael ei fonitro gan eu pwyllgor ansawdd a diogelwch y claf ac yn adrodd yn ôl i'r bwrdd iechyd.

Cadw'n iach

Mae'r egwyddor o gadw'n iach yn ymwneud â sicrhau eich bod yn wybodus fel y gallwch reoli eich iechyd a'ch llesiant eich hun.

Mae'n ymwneud â'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chi i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Rydym am i chi gael eich grymuso i wneud penderfyniadau am eich iechyd, eich ymddygiad a'ch llesiant eich hun sy'n cael effaith gadarnhaol drwy gydol eich bywyd.

Yn ein datganiad y llynedd, gwnaethom ddweud y byddem yn...	Dyma sut wnaethon ni
Cynyddu'r nifer sy'n cael y brechiad fflw 	Cynigiodd 80 o Fferyllfeydd Cymunedol yn ardal y Bwrdd Iechyd frechiadau fflw yn 2019 i 2020, o gymharu â 78 yn 2018 i 2019. O fis Hydref i fis Rhagfyr 2019, darparwyd 9,368 o frechiadau fflw yn y Fferyllfeydd Cymunedol, o gymharu â 6,391 am yr un cyfnod yn 2018. Yn 2019, cynigiodd y Bwrdd Iechyd hefyd, fel dull wedi'i dargedu, frechiadau fflw i gleifion sy'n mynychu clinigau ar gyfer: • clefyd cronig yr afu • problemau anadlol • cyn-asesu cyn llawdriniaeth • gofal cyn geni (Ysbyty Glangwili) Roedd nifer y cleifion a gafodd eu brechu trwy'r clinigau hyn yn fach ond gan ddefnyddio'r dull "mae pob cyswllt yn cyfrif", roedd yn gyfle

	i'r Bwrdd Iechyd godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd brechu ymhlith cleifion â chyflwr cronig. Yn ein gwaith clwstwr yn Ne Sir Benfro, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd swydd newydd sef Nyrs Allgymorth i'r Henoed. Mae'r swydd newydd hon wedi bod yn allweddol wrth ymgysylltu â chartrefi gofal a'r gymuned, a gall ddarparu brechiadau fflw, gan helpu i gynyddu niferoedd brechiadau fflw yn yr ardaloedd hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi annog y gweithlu i gael brechiad fflw ac, er mwyn nodi'r nifer sy'n cael eu brechu, datblygodd adroddiadau cywir ac amserol ar gyfer adrannau a rheolwyr. O 31 Rhagfyr 2019, roedd 4,897 aelod o staff wedi cael brechiad fflw.
Lleihau cyfraddau 'smygu yn ystod beichiogrwydd 	Mae data'r Bwrdd Iechyd yn dangos bod cyfraddau ysmegu mewn beichiogrwydd wedi gostwng o 17% i 16% yn yr asesiad cychwynnol yn 2019 gyda 67% o fenywod yn rhoi'r gorau i ysmegu yn ystod beichiogrwydd. Rydym yn cynnwys monitro carbon deuocsid fel mater o drefn ym mhob ymgynghoriad cyn-genï. Mae darlenniad uwch na 4 yn sbarduno atgyfeiriad yn awtomatig at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu. Mae ymarferwyr rhoi'r gorau i ysmegu, a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, hefyd yn hwyluso clinigau integredig cyn genï i drafod strategaethau i rhoi'r gorau i ysmegu yn ystod beichiogrwydd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu o fewn gofal eilaidd, gofal sylfaenol, fferyllfa lefel 3 a'r gymuned.

Monitro ymweliadau â mamau a babanod 10 i 14 diwrnod oed a monitro cyfraddau brechu



Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro ymweliadau genedigaethau newydd a 98% o'r cysylltiadau hyn o fewn yr amserlen ofynnol. Mae'r rhai na welir o fewn yr amserlen hon wedi'u hadolygu a chanfuwyd bod hyn oherwydd rhesymau dilys, er enghraifft babanod sy'n aros ar Uned SCBU ar ôl geni.

Cyflawnwyd gwelliant o ran cyfathrebu a throsglwyddo gofal rhwng y gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd. Mae trosglwyddo llwybr gofal rhwng bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd wedi cael ei ddatblygu ac yn cael ei weithredu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei fonitro dros y 12 mis nesaf gydag adolygiadau chwarterol.

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, archwiliwyd ffyrdd arloesol o gyfathrebu â theuluoedd. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu gwasanaeth digidol i wella cyfathrebu sy'n caniatáu dull rhith ar gyfer pob ymweliad genedigaeth newydd. Fodd bynnag, mae'r gwaith archwiliadol hwn hefyd wedi tynnu sylw at y diffyg adnoddau TG a chyfathrebu sydd ar gael i'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd. Mae hyn wedi rhoi her inni allu dilyn cyfarwydddeb Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth ymwelwyr iechyd hanfodol yn enwedig i deuluoedd agored i niwed. Nod gwasanaeth ymwelwyr iechyd y Bwrdd Iechyd yw gwella'r adnoddau hyn o fewn y 12 mis nesaf gan sicrhau gwasanaeth hygyrch i bob teulu.

Mae imiwneiddio a brechu yn rhan allweddol o rôl iechyd cyhoeddus y gwasanaeth ymwelwyr iechyd. Hyrwyddir imiwneiddiadau ym mhob cyswllt; hysbysir ymwelwyr iechyd am bobl nad ydynt yn bresennol a byddant yn cysylltu â rhieni i archwilio unrhyw rwystrau rhag imiwneiddio.

	Yn ystod y 12 mis diwethaf, ac o ganlyniad i hyn, mae clinigau dal-i-fyny wedi'u sefydlu mewn meddygfeydd a lleoliadau cymunedol lleol mewn ardaloedd lle mae niferoedd imiwneiddio yn isel. Y nod yw cynyddu'r nifer a darparu gwasanaeth hyblyg a hygyrch i ddiwallu anghenion y gymuned. Mae hyn wedi cyfrannu at welliant mewn cyfraddau imiwneiddio yn y cymunedau hynny. Mae'r gwaith hwn yn parhau mewn partneriaeth â chydlynnydd imiwneiddio'r Bwrdd Iechyd. Yn ogystal â hyn, ar lefel genedlaethol, derbynnir adroddiadau chwarterol, sy'n caniatáu inni graffu a monitro gyda'r nod o barhau i gynyddu'r nifer sy'n cael eu himiwneiddio.
--	---

Astudiaeth achos “Cadw’n Iach”: tîm perffaith anableddau dysgu



Mae'r Grŵp Rhaglen Anableddau Dysgu yn grŵp strategol o reolwyr gwasanaeth lechyd a Gofal Cymdeithasol ar draws y tair sir. Nod y grŵp yw sicrhau ymgysylltu ystyrlon dyda phobl ag anableddau dysgu. Mae wedi comisiynu Datganiad o Fwriad a Model o Ofal a Chefnogaeth ar gyfer y rhanbarth. Gwahoddwyd gwasanaethau'r 3ydd Sector i'r cyfarfodydd, ond nid oeddent wedi gallu cael barn pobl ag anableddau dysgu i'w cynrychioli'n ystyrlon yn y cyfarfodydd hyn.

Cyfarfu grŵp o oedolion ag anableddau dysgu, gyda chefnogaeth gwasanaeth eiriolaeth Pobl yn Gyntaf, i benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r Grŵp Rhaglen Anableddau Dysgu.

Fe wnaethant enwi eu hunain yn *Dream Team*, ac mae'r tîm perffaith hwn bellach wedi datblygu yn grŵp o 10 unigolyn o ledled y tair sir gan gynrychioli'r boblogaeth anableddau dysgu ehangach.

Mae'r *Dream Team* wedi datblygu papur Cytundeb Cyfarfodydd sy'n nodi sut mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod lefel y cyfathrebu yn briodol, bod papurau'n cael eu cynhyrchu ar fformat Hawdd ei Ddeall, bod seibiannau yn ystod y cyfarfodydd a bod pobl yn cael amser i gael eu clywed. Mae'r *Dream Team* hefyd wedi datblygu Siarter i egluro sut roeddent am i'r gwasanaethau gael eu trawsnewid.

Astudiaeth achos “Cadw’n Iach”: cefnogi gofalwyr

Mae nifer y gofalwyr di-dâl yn cynyddu ac i gydnabod eu cyfraniad at gefnogi gofal aelodau o'r teulu mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu prosiect peilot i sefydlu Swyddogion Gofalwyr yn Ysbyty Tywysog Phillip, Ysbyty Glangwili, Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Bronglais (cyfanswm o bedair swydd). Datblygwyd y prosiect hwn yn benodol i ymateb i flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfranogiad gofalwyr di-dâl yn y broses cynllunio rhyddhau o ysbyty.

Mae'r prosiect peilot yn bartneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd a'n partneriaid awdurdod lleol, ac mae'n cael ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffordd Sir Gâr, Gofalwyr Ceredigion a Croesffordd Hafal. Bydd y Swyddogion Gofalwyr yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o helpu i gefnogi a darparu cyngor i ofalwyr di-dâl ar eu taith drwy ysbyty, p'un ai fel gofalwr a/neu glaf. Bydd y Swyddogion Gofalwyr yn gweithio ar wardiau ysbytai ac yn cyfeirio at wasanaethau eraill am gefnogaeth. Byddant yn cefnogi gofalwyr ac yn addysgu staff ar y materion sy'n wynebu gofalwyr di-dâl i sicrhau cyswllt effeithiol ar feysydd fel rhyddhau o ysbyty.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i gydlynw'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, sy'n Gynllun Sicrwydd Ansawdd dan arweiniad y Bwrdd Iechyd mewn Partneriaeth â Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru. Mae'r Cynllun yn cynnwys 3 lefel sef Efydd, Arian ac Aur gyda chwe safon â thema. Rhaid i leoliadau gynhyrchu tystiolaeth o gyflawniad mewn nifer o feysydd yn y themâu hyn. Dyluniwyd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr i'w ddefnyddio gan ystod eang o leoliadau gan gynnwys meddygfeydd, wardiau/timau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, rhai lleoliadau ysbyty, ysgolion/ colegau, llyfrgelloedd, timau awdurdodau lleol, Canolfan Swyddi a Mwy a sefydliadau'r trydydd sector. Mae cyfanswm o 115 o leoliadau wedi cyflawni lefel efydd gyda 55 arall ar y gweill, mae gan 5 lefel Arian gyda 18 arall ar y gweill, a 2 ar lefel Aur gyda 3 arall ar y gweill. Rhan annatod o Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yw proses lle gall Gofalwyr gofrestru gyda meddygfa ynghyd â chael eu cyfeirio at Wasanaethau Gwybodaeth Gofalwyr y sir. Y ffigurau ar gyfer 2019/20 yw 8,467 o ofalwyr wedi cofrestru a 742 o ofalwyr wedi atgyfeirio (ffigurau 2018/19 oedd 7,763 a 597 yn yr un drefn).

Gofal Diogel

Mae'r egwyddor o ofal diogel yn ymwneud â sicrhau eich bod yn cael eich diogelu rhag niwed, ac yn cael eich cefnogi i ddiogelu eich hun rhag niwed hysbys.

Mae iechyd, diogelwch a llesiant pobl yn flaenoriaeth inni. Rydym am ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ofal diogel ac rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd i fod yn fwy dibynadwy ac i wella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Er bod gan ddarparu gofal ryw elfen o risg o niwed i ddefnyddwyr gwasanaeth, rydym am nodi, atal a lleihau niwed diangen neu niwed posib. Felly, rydym am sicrhau eich bod yn cael eich diogelu a'ch hamddiffyn rhag niwed y gellir ei osgoi, a hynny trwy ofal, triniaeth a chefnogaeth priodol.

Yn ein datganiad y llynedd, gwnaethom ddweud y byddem yn...	Dyma sut wnaethon ni
Ehangu'r prosesau monitro ac uwchgyfeirio trwy gyflwyno Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (<i>NEWS</i>) mewn gwasanaethau cymunedol, a gwerthuso ei ddefnydd. 	I nodi Diwrnod Sepsis y Byd (Gwener 13 Medi 2019), lansiodd y Bwrdd Iechyd yr offeryn Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (<i>NEWS</i>) i'w ddefnyddio yn y gymuned a meddygfeydd i wella adnabyddiaeth a thriniaeth gynnar o sepsis. Mae sepsis yn gyflwr sy'n peryglu bywyd sy'n codi pan fydd ymateb y corff i haint yn niweidio ei feinweoedd a'i organau ei hun. Gall gael ei achosi gan rywbeth mor syml â friw neu frathiad pryfyn, neu haint fel niwmonia. Mae hefyd yn risg yn dilyn llawdriniaeth, neu i fenywod sydd newydd roi genedigaeth.



GIG Cymru oedd y system gofal iechyd cyntaf yn y byd i weithredu'r teclyn *NEWS* fel y safon ym mhob ysbyty yn 2012, ond dyma'r tro cyntaf iddo gael ei ddefnyddio gan nyrsys cymunedol a meddygfeydd.

Mae *NEWS* yn galluogi clinigwyr a nyrsys i gyfrifo bod cyflwr corfforol claf mewn perygl o ddirywio – mewn ffordd safonol a ddeallir yn gyffredinol.

Gan ddechrau gyda Meddygfa Dinbych-y-pysgod a Thîm Nyrsio Ardal Sir Benfro, bydd y defnydd o *NEWS* yn cael ei gyflwyno gan bob tîm nyrsio ardal a phractisau meddygon teulu yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro dros y 18 mis nesaf.

Lleihau nifer yr achosion o ddifrod pwyso y gellir ei osgoi ymhlith y cleifion yn ein gofal



Mae digwyddiadau sy'n adrodd am ddifrod pwyso yn parhau i fod o fewn y tri digwyddiad yr adroddir arnynt amlaf mewn perthynas â chleifion. Mae lleihau nifer yr achosion o ddifrod pwyso y gellir ei osgoi wedi parhau i fod yn rhan o waith Gwella Ansawdd y Bwrdd Iechyd. Er nad ydym wedi gwneud cynnydd cyffredinol y Bwrdd Iechyd yr oeddem yn anelu ato, rydym wedi gweld pocedi o welliant.

Ym mis Ebrill 2019, dathlodd Ward Teifi, ward trawma ac orthopedeg yn Ysbyty Glangwili, dros 120 diwrnod heb ddifrod pwyso a gafwyd mewn ysbyty.

Buddsoddodd y tîm mewn hyfforddiant arbennig a gweithio ar y cyd â Thîm Hyfywedd Meinwe, Tîm Gwella Ansawdd a Nyrs Datblygu Ymarfer y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod atal difrod pwyso yn brif flaenoriaeth.

	Mae'r ward wedi cynnal treial ar 'fatres hybrid' newydd arbennig. Mae'r fatres yn gyfuniad o sbwng ac aer ac wedi'i chynllunio ar gyfer unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu difrod pwysu. Cafwyd ymateb gadarnhaol gan gleifion a staff i'r matresi, ac o ganlyniad prynwyd nifer ar gyfer Ward Teifi.
Monitro nifer y digwyddiadau yr adroddir amdanynt o fewn y bwrdd iechyd a sicrhau bod dysgu yn digwydd yn dilyn pryderon difrifol. 	Yn ystod 2019/20, rydym wedi adolygu'r mecanweithiau sydd ar waith ac wedi cynyddu'r trefniadau ar gyfer monitro digwyddiadau. Er enghraifft, cyflwynwyd adroddiad sicrwydd ansawdd a gwelliant ym mob cyfarfod yn ystod y flwyddyn i'r Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Mae adran sicrwydd ansawdd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o ddata, deallusrwydd a chymau gweithredu i ddarparu gofal o ansawdd uchel yn erbyn y broses sicrwydd ansawdd graidd sy'n bodoli o fewn y Bwrdd Iechyd a'r dangosyddion ansawdd a diogelwch craidd. Mae nifer o brosesau sicrwydd ansawdd craidd yn cael eu defnyddio ar draws y sefydliad; mae'r rhain yn cynnwys Teithiau Cerdded o'r Bwrdd i'r Llawr, adborth ar brofiadau gofal, hapwiriadau penodol i wasanaeth, ac archwilio clinigol. Gellir cael trosolwg o ansawdd trwy ddadansoddi dangosyddion ansawdd a diogelwch; mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau sy'n arwain at niwed, digwyddiadau difrifol a chwynion. Y lefel uchaf o ddigwyddiadau diogelwch yr adroddwyd arnynt yn 2019 i 2020 yw difrod pwysu, damweiniau cleifion gan gynnwys cwympiadau cleifion mewnol, a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth. Gyda'r meysydd hyn mewn golwg, mae adran gwella ansawdd yr adroddiad wedi canolbwyntio ar y gwaith gwella yn y meysydd hyn.



	Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r pwyllgor ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn eu cyfanrwydd .
--	---

Astudiaeth achos “Gofal Diogel”: hyfforddiant ar ddefnydd priodol o fenig

Gan wneud defnydd o'r gwaith a wnaed yn Ysbyty Great Ormond Street gyda chefnogaeth Ymgyrch 'The Gloves are Off' GIG Lloegr, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd hyfforddiant newydd.

Mae'r defnydd o fenig di-haint yn aml wedi'i gysylltu â thraws-heintio mewn ysbyty a gall wneud i'r claf deimlo'n anghyfyrdus. Mae lleihau'r defnydd o fenig gan staff yn lleihau'r risg o gaffael haint mewn ysbyty gan wella diogelwch. Mae hefyd yn cynyddu'r siawns o wella heb yr angen am wrthfotigau ychwanegol.

Dyma nodau'r hyfforddiant newydd:

- Gwellu cydymffurfiaeth staff â hylendid dwylo
- Lleihau heintiau a gafwyd mewn ysbyty
- Lleihau'r lefel o broblemau croen (dermatitis) gan staff oherwydd gorddefnyddio menig
- Gwellu'r effaith amgylcheddol

Nodwyd dwy ward beilot lle y cafodd defnydd menig ei fonitro dros y cyfnod peilot. Ar y ddwy ward nodwyd gwelliant mewn hylendid dwylo gan leihau risg o haint.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno ar draws y safleoedd, ward wrth ward.




Astudiaeth achos “Gofal Diogel”: ar rhest fer tîm y flwyddyn – diogelwch y claf

Cyrhaeddodd Tim Sicrwydd, Diogelwch a Gwelliant y Bwrdd Iechyd y rownd derfynol yng Ngwobrau Diogelwch y Claf 2019 yr *Health Service Journal* yn y categori Tim Diogelwch y Claf. Cafodd y tîm gydnabyddiaeth am eu gwaith i yrru agenda diwylliant diogelwch y claf trwy raglen o fentrau diogelwch y claf.

Roedd y tîm yn cydnabod nad oedd unrhyw ‘ddelweddau’ clir yn cael eu defnyddio yn y Bwrdd Iechyd fel ysgogiadau ar lefel glinigol i atgoffa staff o risgiau a/neu ddigwyddiadau trwch blewyn a nodwyd trwy ymchwilio i ddigwyddiadau diogelwch y claf.

Wrth drafod gyda nifer o staff lefel ward, cydnabuwyd y byddai posteri dysgu thematig yn helpu timau i ddysgu oherwydd y byddai’n dal sylw ac yn ffordd syml a chyflym o egluro cysyniadau.



Oherwydd y diffyg delweddau fel ysgogiadau ‘cyflym’, roedd gwallau a digwyddiadau yn parhau. Trwy feddwl mewn ffordd feirniadol, penderfynodd y tîm ganolbwyntio ar ganfyddiadau atodol ymchwiliadau blaenorol yn ogystal â’r ffactorau sy’n cyfrannu mwy, a chodi ymwybyddiaeth gyda phosteri lliwgar, llachar ac amlwg.

Mae’r tîm hefyd yn arwain rhaglen gynhwysfawr a chydweithredol o weithgareddau i sicrhau bod y ‘diwylliant cywir’ yn bresennol ar draws y Bwrdd Iechyd, yn cynnwys:

- Diwrnodau diogelwch y claf rheolaidd
- Dysgu o bosteri digwyddiadau
- WalkRounds™ – Ymweliadau o’r Bwrdd i’r Llawr
- Gwiriadau iechyd ward

Gofal Effeithiol

Mae'r egwyddor o ofal diogel yn ymwneud â sicrhau eich bod yn cael y gofal a'r gefnogaeth cywir mor lleol â phosib a sicrhau eich bod yn gallu cyfrannu i wneud llwyddiant o'r gofal hwnnw.

Rydym am i chi gael y gofal a'r gefnogaeth cywir fel eich bod wedi eich grymuso i wella neu reoli eich iechyd a'ch llesiant eich hun.

Rydym am i ymyriadau i wella iechyd fod yn seiliedig ar yr arfer gorau ac ar waith ymchwil o safon da.

Yn ein datganiad y llynedd, gwnaethom ddweud y byddem yn...	Dyma sut wnaethon ni
Parhau i weithredu'r llwybr tor-clun a gwerthuso'r gwaith hwn. 	Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud gwelliannau i'r llwybr tor-clun. Rydym yn gwerthuso'r gwaith a wnaed. Mae'r broses o gyflwyno mesurau profiad yr adroddwyd arnynt gan gleifion (PREMS) bellach yn cael ei gefnogi ymhellach ar draws y Bwrdd Iechyd gyda staff gweinyddol ychwanegol. Rydym yn ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i wella cefnogaeth Nyrsys Clinigol Arbenigol i'r gwasanaeth hwn.

Gwella ansawdd cynlluniau gofal a thriniaeth o fewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl trwy ymgymryd ag archwiliadau o ddogfennaeth ac adolygu ein hyfforddiant.



Mae Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhaglen o adolygu parhaus ar gyfer Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

O'i gymharu â'r archwiliad a wnaed ar ddiwedd 2018/19, mae'r archwiliad ar gyfer 2019/20 yn dangos gwelliant ar draws y Gyfarwyddiaeth mewn perthynas â Chynllunio Gofal a Thriniaeth.

Y targed, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, yw i Fyrddau Iechyd sicrhau cydymffurfiaeth 90% o ddefnyddwyr gwasanaethau Iechyd meddwl ac anableddau dysgu fod â Chynllun Gofal a Thriniaeth gyfredol o fewn y dyddiad a'i ddiweddaru o fewn cyfnod o ddeuddeng mis. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gweld cynnydd o 23% mewn cydymffurfiaeth o'r llynedd, gyda'r gyfradd gydymffurfio gyfredol yn 89%.

Mae'r archwiliad hefyd yn mesur ansawdd y Cynllunio Gofal a Thriniaeth. Gwelwyd gwelliant o 7% yn gyffredinol mewn ansawdd gyda chyfartaledd o 87% wedi'i gofnodi dros y flwyddyn (y targed a osodwyd yw 90%).

Dengys ffigurau bod y Gyfarwyddiaeth ar y trywydd iawn i gyflawni 90% ar draws y safonau a osodwyd yn y flwyddyn i ddod.

Er mwyn sicrhau bod hyn wedi'i ymgorffori a'i ddatblygu, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gweithredu rhaglen hyfforddi Cynllunio Gofal a Thriniaeth fisol dreigl, sydd ar gael i'r holl staff. Mae hyfforddiant pwrpasol hefyd ar gael i dimau i bersonoli cynllunio gofal ymhellach a chyflawni'r targedau a osodwyd. Darperir y rhaglen hyfforddi hefyd fel rhan o'r rhaglen ar gyfer nyrsys sydd newydd gymhwyso.

Sicrhau bod ein cleifion yn cael eu gofal yn y lleoliad gofal mwyaf priodol ac yn profi cyn lleied o oedi â phosib wrth iddynt symud trwy'r gwahanol gamau gofal.



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wella'r modd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu. Amlinellir tair rhaglen yn Strategaeth Iechyd a Gofal y Bwrdd Iechyd: Trawsnewid Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu; Trawsnewid ein Cymunedau; a Thrawsnewid ein Hysbyati.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r canlynol:

- Rhwydwaith Cymunedol Integredig. Er enghraifft, gwneud gwelliannau i fferyllfeydd cymunedol yn cynnwys brysbennu a thrin, canolfannau cerdded-mewn a chabannau gwybodaeth
- Canolfannau Iechyd a Llesiant. Er enghraifft, agor Canolfannau Iechyd a Llesiant Aberaeron ac Aberteifi sy'n cynnig ystod o wasanaethau a chymorth ar iechyd a llesiant
- Rhwydwaith Ysbyty. Er enghraifft, sefydlu gwasanaethau therapi drws blaen ym mhob un o'r pedwar safle ysbyty aciwt
- Rhwydwaith Gofal a Chefnogaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Er enghraifft, datblygiad Canolfan Iechyd Meddwl Cymunedol 24 awr Gorwelion, yn Aberystwyth, yn cynnwys man diogel a rolau mentora cydradd

Astudiaeth achos “Gofal Effeithiol”: Trawsblaniad Microbiota Ysgarthol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwasanaeth newydd sef Trawsblaniad Microbiota Ysgarthol, sy'n driniaeth ar gyfer achosion atglafychol o Haint *Clostridium difficile* (CDI).

Pan mae claf yn cael cwrs o wrthfotigau mae siawns y gallai ddatblygu CDI a all arwain at ddolur rhydd parhaus. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod y bacteria arferol yng ngholuddyn y claf wedi'i ddinistrio ac nid yw'r coluddyn wedi gallu gwella o'r haint. Mae dolur rhydd parhaus yn wanychol iawn i'r claf a gall arwain at ddiffyg maeth, dadhydradiad ac arwahanrwydd a gall hefyd eu gwneud yn agored i heintiau eraill.

Nod Trawsblaniad Microbiota Ysgarthol yw disodli'r bacteria arferol yng nholuddyn y claf sydd wedi'i ddinistrio trwy ddefnyddio gwrthfotigau.



Mae cytundeb ar waith gyda Phrifysgol Birmingham i gyflenwi'r alicwot wedi'u rhewi i'r Bwrdd Iechyd. Y cytundeb cychwynnol gyda Phrifysgol Birmingham oedd y byddai hyn ar gael i Ysbyty Tywysog Philip yn unig oherwydd y pellter y byddai angen ei gludo. Ers cyflawni'r Trawsblaniadau Microbiota Ysgarthol cychwynnol, mae'r gwasanaeth wedi'u ymestyn ar draws y Bwrdd Iechyd.

Ers i'r gwasanaeth fod ar gael, mae pob trawsblaniad a gyflawnwyd wedi bod yn llwyddiant, gyda samplau clir o garthion yn cael eu darparu ar ôl trawsblannu. Gwelodd y cleifion welliant mewn iechyd cyffredinol, mwy o awydd bwyta a dim ailwaelu pellach yn gofyn am dderbyn i ysbyty.

Gofal Urddasol

Mae'r egwyddor o ofal urddasol yn ymwneud â sicrhau eich bod yn cael eich trin ag urddas a pharch ac eich bod yn trin eraill yn yr un modd.

Dylem, bob amser, ystyried a diogelu'r hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus. Yn eich gofal, rhaid ystyried eich anghenion, eich galluoedd a'ch dymuniadau.

Yn ein datganiad y llynedd, gwnaethom ddweud y byddem yn...	Dyma sut wnaethon ni
Sefydlu prosiect ar y cyd i wella cyfathrebu â chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd â nifer o brosiectau ar y cyd trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys • Cyd-ddatblygu model gofal ar gyfer pobl hŷn sy'n dod i ysbyty gyda phroblem iechyd meddwl a meddygol • Cyd-ddatblygu model gofal peilot yn Ysbyty Bronglais i ddwyn y timau aciwt ac iechyd meddwl ynghyd ar gyfer pobl hŷn sy'n dod i ysbyty gyda phroblem iechyd meddwl a meddygol

Astudiaeth achos “Gofal Urddasol”: siarter i sicrhau hawliau pobl sydd ag anableddau dysgu

Ym mis Awst 2019, addawodd aelodau Bwrdd Hywel Dda i wneud yr hyn a allant i sicrhau bod gan bobl ag anableddau dysgu yr un hawliau a dewisiadau a phawb arall. Lansiodd y Siarter yn ffurfiol gan y Dirprwy Weinidol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Julie Morgan AC, yn Sioe Sir Benfro.

Llofnododd yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol (oedd yn eu swyddi ar y pryd) “Fy Siarter”, siarter a ysgrifennwyd gan bobl ag anableddau dysgu yng ngorllewin Cymru, yn nodi'r hyn y maent yn ei ddisgwyl a'i eisiau mewn bywyd.



Trwy arwyddo, mae pobl yn datgan eu cytundeb ac hefyd yn addo gwneud yr hyn a allant i wireddu'r siarter yn y gwaith, gyda theulu a ffrindiau ac yn eu cymunedau.

Ceir fideo o fanylion y siarter a straeon rhai o bobl gorllewin Cymru sydd ag anableddau dysgu yn www.pembrokeshirepeople1st.org.uk

Astudiaeth achos “Gofal Urddasol”: hyfforddiant gofal dementia

Mewn ymdrech i gefnogi cleifion sy'n byw gyda Dementia, cynhaliwyd dadansoddiad o anghenion hyfforddi. Mae'r gwaith yn diffinio mathau o ddementia, categorïau o gleifion sy'n byw gyda'r cyflwr hwn a'i effeithiau gwanychol; a hefyd y gofynion hyfforddi canfyddedig ar gyfer dylanwadrwy gwybodus, medrus a dylanwadol yn y maes gofal.


Mae ymchwil dementia yn barhaus gyda syniadau newydd yn cael eu datblygu am y cyflwr. Mae sawl grŵp ar waith ledled Cymru, i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Fframwaith Gwaith Da. Mae'r Fframwaith hwn yn rhoi amlinelliad o anghenion y cleifion, y gofawyr a'r staff a'r canlyniadau posibl i'r claf a'r teulu.

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi rhoddwyr gofal i ennill y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gofal o ansawdd i glaf sy'n byw gyda Dementia, ar ba brynag gam.

Mae caffael gwybodaeth trwy'r Fframwaith Gwaith Da o fudd i'r claf a'i deulu trwy sicrhau bod yr addysg sy'n ymwneud â Dementia yn cael ei chyflawni er budd gofal y claf.

Mae'r Uned Gwasanaeth Dydd yn parhau i wneud cynnydd gan ddarparu amgylchedd 'cyfeillgar i ddementia' i gleifion. Mae hyn yn cynnwys gosod lloeriau lliw, hysbysiadau mewn toiledau i leihau'r risg o ddrysu, a sicrhau ymgysylltiad yr holl staff. Mae nyrs cyswllt dementia hefyd wedi'i dyrannu.

Gellir gofalu am gleifion sydd â dementia sy'n cael eu derbyn i ysbyty am driniaethau llawfeddygol mewn amgylchedd sy'n lleihau'r potensial ar gyfer mwy o ddryswch a phryder. Mae hyn hefyd yn gwneud y profiad yn llai o straen i'r gofawyr a'r perthnasau.



Astudiaeth achos “Gofal Urddasol”: llawfeddygaeth ddydd – sicrhau urddas ar gyfer cleifion trawsryweddol

Yn ystod 2019, archwiliodd yr Uned Llawfeddygaeth Ddydd sut y gellir darparu gofal urddasol i gleifion trawsryweddol a restrir ar gyfer llawdriniaethau wedi'u cynllunio o fewn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth wedi adolygu anghenion hyfforddi'r staff ac wedi gweithredu sesiynau pwrpasol ar gyfer Uwch Brif Nyrsys dros gyfnod o ddau ddiwrnod a sesiynau dwy awr ar gyfer staff nyrsio eraill.

Mae'r aelodau staff sydd wedi cael hyfforddiant wedi rhoi adborth cadarnhaol ar yr hyfforddiant. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cael adborth yr un mor gadarnhaol gan y nifer fach o gleifion trawsryweddol sy'n mynychu'r unedau llawfeddygaeth ddydd.

Mae gwaith pellach, rhwng Gofal wedi'i Gynllunio, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Gwasanaethau Macmillan, i werthuso a chyflwyno'r sesiynau hyfforddi, yn parhau.



Gofal Amserol

Mae'r egwyddor o ofal amserol yn ymwneud â'ch bod yn cael mynediad amserol at wasanaethau yn seiliedig ar angen clinigol ac eich bod yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eich gofal.

Rydym yn cydnabod bod peidio â chael gofal amserol yn medru cael effaith anferth ar eich profiad o'n gwasanaethau iechyd ac ar eich gallu i gyflawni'r canlyniadau iechyd gorau.

Rydym am sicrhau, er mwyn cael y canlyniad gorau posib, bod eich cyflwr yn cael ei ddiagnosio yn brydlon ac yn cael ei drin yn unol ag angen clinigol.

Yn ein datganiad y llynedd, gwnaethom ddweud y byddem yn...	Dyma sut wnaethon ni
Parhau i wella mynediad at Ofal Offthalmoleg 	Rydym wedi datblygu a chyflwyno Rhaglen Cyfeirio Gwell Cataract Optometreg. Mae 45 practis gyda 67 Optometrydd wedi'u hyfforddi i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Rhwyng mis Ebrill a mis Medi 2019, atgyfeiriwyd 519 o gleifion am gataract dan y cynllun gwell. Rhestrwyd 287 yn uniongyrchol yn dilyn adolygiad rhith o'r nodiadau gan ymgynghorydd offthalmoleg. Mae hyn yn cyfateb i 43 clinig cleifion allanol (12 claf i bob clinig) y mae eu capasiti wedi'u rhyddhau i weld cleifion gyda chyflyrau llygad eraill.
Gwella amserau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol cleifion allanol 	Cyn y pandemig COVID-19, roedd amseroedd aros cleifion allanol ar gyfer apwyntiadau dilynol yn gwella. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar ein hamseroedd aros am apwyntiadau cleifion allanol dilynol.

	Fel rhan o reolaeth barhaus y pandemig, rydym wedi cyflwyno platfform digidol ar sail treial i alluogi apwyntiadau trwy ffôn symudol neu liniadur. Byddwn yn gwerthuso'r llwyfannau digidol.
Lleihau'r amseroedd aros i gleifion sydd angen asesiad / triniaeth mewn adrannau brys 	Mae system gofal heb ei gynllunio y Bwrdd Iechyd yn parhau i gael ei herio'n fawr gyda phwysau sylweddol wrth ddrws blaen y pedwar safle aciwt. Er bod nifer y cleifion sy'n cyrraedd ein Hadrannau Brys mewn ambiwlans wedi bod yn is yn ystod 2019 na'r flwyddyn flaenorol, ar y cyfan mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi nifer uchel o bobl yn mynychu ein Hadrannau Brys, ynghyd â nifer uchel o atgyfeiriadau gan feddygon teulu am asesiadau sy'n arwain at dderbyn cleifion i ysbyty. Mae Perfformiad 4 Awr Adrannau Brys y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn uwch na thuedd Cymru gyfan yn ystod 7 mis cyntaf 2019/20. Roedd ein perfformiad yn cael ei ystyried yn gyson fel yr ail orau yng Nghymru ac ym mis Mehefin 2019 ni oedd y Bwrdd Iechyd oedd yn perfformio orau yng Nghymru. Mae perfformiad 12 Awr Adrannau Brys y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn her sylweddol. Mae capasiti annigonol ein hysbytai aciwt yn effeithio ar yr amseroedd aros yn ein hadrannau brys, yn enwedig dros nos. Mae lleihau arosiadau 12 awr yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Uchelgais y Bwrdd Iechyd yw dileu arosiadau 12 awr yn llwyr yn ein hadrannau brys.
Gwella mynediad at asesiad a thriniaeth orthodonteg a deintyddol 	Fel rhan o gynllun peilot GIG Cymru, cyflwynwyd e-atgyfeiriadau ym mis Mawrth 2019. Roedd hyn yn caniatáu ymagwedd gyson at y broses o atgyfeiriadau ar gyfer yr holl wasanaethau gofal arbenigol a gofal eilaidd. Mae systemau ar waith i nodi unrhyw atgyfeiriadau anghywir neu sydd heb eu cwblhau'n ddigonol cyn gynted â phosib gan atal unrhyw oedi gormodol i gleifion wrth gyrchu'r gwasanaethau cywir. Yn ogystal, mae brysbennu'r atgyfeiriadau yn

	cael ei wneud mewn modd amserol gan sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sy'n ofynnol yn y lleoliad mwyaf priodol. Gall y claf a'r deintydd atgyfeirio olrhain yr atgyfeiriad ar-lein gan fod pob claf yn cael cyfeirnod unigryw. Mae brysbennu atgyfeiriadau yn digwydd mewn modd amserol sy'n golygu bod cleifion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol yn ôl anghenion deintyddol, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn rhan o'r atgyfeiriad. Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd, ers cyflwyno'r peilot, am y cyfnod Mawrth 2019 i Rhagfyr 2019. <table border="1"> <thead> <tr> <th>Arbenigedd</th><th>Cyfanswm</th></tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Llawdriniaeth gên ac ar wyneb</td><td>372</td></tr> <tr> <td>Mân lawdriniaeth ar y geg</td><td>2326</td></tr> <tr> <td>Meddygaeth y geg</td><td>509</td></tr> <tr> <td>Orthodonteg</td><td>1644</td></tr> <tr> <td>Pediatreg</td><td>1227</td></tr> <tr> <td>Adferol</td><td>306</td></tr> <tr> <td>Deintyddiaeth Gofal Arbennig</td><td>304</td></tr> <tr> <td>Brys (aros pythefnos ar y mwyaf)</td><td>132</td></tr> <tr> <td>Cyfanswm atgyfeiriadau</td><td>6820</td></tr> </tbody> </table> Mae lefel y mynediad at Wasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn parhau i fod yn gymharol sefydlog dros y 12 mis diwethaf, sef 46%.	Arbenigedd	Cyfanswm	Llawdriniaeth gên ac ar wyneb	372	Mân lawdriniaeth ar y geg	2326	Meddygaeth y geg	509	Orthodonteg	1644	Pediatreg	1227	Adferol	306	Deintyddiaeth Gofal Arbennig	304	Brys (aros pythefnos ar y mwyaf)	132	Cyfanswm atgyfeiriadau	6820
Arbenigedd	Cyfanswm																				
Llawdriniaeth gên ac ar wyneb	372																				
Mân lawdriniaeth ar y geg	2326																				
Meddygaeth y geg	509																				
Orthodonteg	1644																				
Pediatreg	1227																				
Adferol	306																				
Deintyddiaeth Gofal Arbennig	304																				
Brys (aros pythefnos ar y mwyaf)	132																				
Cyfanswm atgyfeiriadau	6820																				
Gwella mynediad at asesiad a diagnosis ar gyfer Anhwylder Sbectrwm Awtistig /	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei gyllid ar gyfer gwasanaethau i asesu a diagnosio Anhwylder Sbectrwm Awtistig. Mae'r cyllid ar gael																				

Anhwylder diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd.



i gynyddu'r adnodd bach o staff sydd ar gael ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaeth asesu. Fodd bynnag, mae recriwtio staff sydd â'r sgiliau priodol wedi bod yn her ac mae'r amseroedd aros cyfredol yn cael eu heffeithio gan swyddi gwag ac absenoldebau salwch. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gweld cynnydd yn yr atgyfeiriadau ar gyfer y gwasanaethau asesu. Gwnaed ymrwymiad ariannol pellach i'r gwasanaeth hwn yn y Cynllun Blynnyddol ar gyfer 2020 i 2021 a byddwn yn parhau i weithio tuag at wasanaeth gwell.

Astudiaeth achos “Gofal Amserol”: *Twilight Sanctuary*

Mae gwasanaeth iechyd meddwl tu allan i oriau ar gyfer oedolion, sy'n torri tir newydd, wedi'i lansio yn Llanelli. Y Twilight Sanctuary yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae ar agor o ddydd Iau i ddydd Sul o 6pm tan 2am, i gynnig noddfa i oedolion sydd mewn risg o ddirywiad iechyd meddwl pan mae gwasanaethau eraill sy'n cynnig cymorth ar gau.

Mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed Powys a Chyngor Sir Gâr, mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu ac yn gweithio ar y cyd â Mind a Hafal i redeg y gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth pan mae ei angen ar bobl o ganolfan Mind yn Llanelli.

Mae Twilight Sanctuary yn cynnig noddfa a chefnogaeth i bobl sydd mewn risg o ddirywiad iechyd meddwl, gan gynnig man arall i gael mynediad cynnar at help.

Y gwasanaeth yw un o'r prosiectau cyntaf i'w lansio o'r rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl.

Dyma fideo byr yn hyrwyddo'r gwasanaeth:

<https://youtu.be/g5spgSdYA5M>



Noddfa Gyda'r Hwyr Llanelli

Astudiaeth achos “Gofal Amserol”: Canolfan Gofal Integredig Aberteifi

Agorwyd drysau Canolfan Gofal Integredig newydd Aberteifi i'r cyhoedd ddydd Llun, 9 Rhagfer, gan ddod â gofal cyd-gysylltiedig i gymunedau lleol am y tro cyntaf.

Daeth agoriad y ganolfan yn dynn ar sodlau lansiad menter debyg yn Aberaeron, ac roedd yn cynrychioli newid cyfeiriad pendant yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ardal sydd i raddau helaeth yn wledig yn yr 21ain Ganrif.



Yn ogystal â darparu gwasanaeth gofal iechyd modern a phwrpasol yn cynnwys meddygfa, deintyddfa a fferyllfa, bydd y ganolfan newydd – a ddatblygwyd gyda £23.8m o arian Llywodraeth Cymru – yn cynnal ystod o glinigau a gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector, awdurdodau lleol a sefydliadau partner.

Mae gwybodaeth bellach ar y gwasanaethau a ddarperir yn y Ganolfan Gofal Integredig i'w gweld ar ein gwefan <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/news/51899>

Gofal Unigol

Mae'r egwyddor o ofal unigol yn ymwneud â chi fel unigolyn, gan adlewyrchu eich anghenion a'ch cyfrifoldebau eich hun.

Mae gan bob un sy'n darparu gofal gyfrifoldeb i sicrhau bod pa bynnag ofal a ddarperir yn cynnwys sylw at hawliau dynol sylfaenol. Lle na all pobl sicrhau'r hawliau hyn drostynt eu hunain, pan na allant fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau o ganlyniad i nam ar y synhwyrâu, problem iechyd meddwl, anabledd dysgu, anhawster cyfathrebu neu unrhyw reswm arall, rhaid darparu mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol.

Rydym yn cydnabod bod gan bob unigolyn anghenion a dymuniadau unigryw. Gall y rhain amrywio yn ôl ffactorau fel oed, rhyw, diwylliant, crefydd ac amgylchiadau personol, a gall eich anghenion newid gydag amser. Felly, mae eich parchu chi fel unigolion yn rhan greiddiol o ofal.

Yn ein datganiad y llynedd, gwnaethom ddweud y byddem yn...	Dyma sut wmaethon ni
Gweithredu Siarter Profiad y Claf a Siarter Hawliau Plant 	Cymeradwywyd y Siarter Gwella Profiad y Claf gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2020 a bydd yn cael ei lansio'n ffurfiol yn ystod Wythnos Profiad o Ofal ym mis Ebrill 2020, gyda rhaglen o ddatblygiadau profiad y claf, er mwyn galluogi ystod ehangach o ffyrdd gwell o ddarparu adborth i'r Bwrdd Iechyd. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu Siarter Plant a Phobl Ifanc erbyn mis Medi 2020.

Cynyddu'r adborth cleifion, teuluoedd a gofalwyr a gwella ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.



Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth mewn sawl ffordd, yn unol â Fframwaith y GIG ar gyfer Sicrhau Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth, sy'n cynnwys defnyddio model pedwar cwadrant (amser go-iawn, ôl-weithredol, rhagweithiol / adweithiol a chydbwysol).

Mae enghreifftiau o'r amrywiol ddulliau yn cynnwys: arolygon mewn ardaloedd clinigol a wardiau, straeon y claf, arolygon ar-lein, Diolch yn Fawr (cyfleuster ar-lein i roi canmolïaeth), yn ogystal â chael adborth ar ffurf cwynion.

Yn gynharach eleni dechreuwyd treialu modiwl Profiad y Claf newydd ar system Datix (System Pryderon a Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd). Dyluniwyd y modiwl i gofnodi canmolïaeth a gaed ar lefel ward, naill ai'n uniongyrchol gan gleifion neu gan eu teulu, gofalwyr neu ffrindiau.

Rydym hefyd wedi cyflwyno'r Prawf Teulu a Ffrindiau. Mae'r prawf hwn yn gyfle i bobl roi adborth ar eu profiad o wasanaethau; rydym yn gofyn cwestiwn safonol ar ôl i glaf gael gofal a thriniaeth: "Pa mor debygol ydych chi o argymhell ein gwasanaeth i ffrindiau a theulu os oes arnynt angen gofal neu driniaeth?" Mae'r gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pob un o unedau achosion brys ac unedau mân anafiadau'r Bwrdd Iechyd, a bydd yn cael ei gyflwyno i bob adran arall yn y sefydliad yn 2020 i 2021.

Yn ystod mis Medi a mis Hydref, anfonwyd 17,871 o Brofion Teulu a Ffrindiau, sef 91% o'r cleifion wnaeth fynychu ein hadrannau brys. Cyfartaledd y gyfradd ymateb oedd 12.2% ac roedd ymateb 84.5% ohonynt yn gadarnhaol. Byddwn yn cyflwyno'r prawf ar draws y Bwrdd Iechyd yn 2020.

Gweithredu Safonau'r Gymraeg.



Ym mis Mai 2019, lansiodd y Bwrdd Iechyd Ddeunydd Hyrwyddo Newydd i gefnogi lansiad Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu'n ffurfiol Safonau'r Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, sy'n gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i roi amlygrwydd cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd beunyddiol.

Nod y Safonau yw ei gwneud yn glir i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg; ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr y Gymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg, gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella eu hansawdd, gan sicrhau bod negeseuon pwysig yn cyrraedd cleifion yn eu dewis iaith gan wneud i bobl deimlo'n fwy gwerthfawr.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gofyn i'r holl staff i baratoi ac i ymgyswrtu â'r dyletswyddau statudol a ddaw gyda'r Safonau. Mae gofyn iddynt hefyd baratoi ac ymgyswrtu â'n cyfrifoldebau fel Bwrdd Iechyd i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol i bawb. Ceir mwy o wybodaeth ar sut yr ydym wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y Gymraeg.

Astudiaeth achos “Gofal Unigol”: gwrando ar ein defnyddwyr gwasanaeth – rhoi dewis ar gyfer paratoi'r coluddyn

Mewn ymateb i nifer o gwynion a thema yn yr arolwg boddhad cleifion o fewn Endosgopi, gwnaed newid i baratoi'r coluddyn ar gyfer gweithdrefn colonosgopi. Cafwyd cwynion ac adborth ynghylch cyfaint a blas y paratoad coluddyn cyfredol sef Moviprep.

Ar ôl trafodaeth gyda cholonosgopyddion sgrinio ac arweinydd fferyllfa, dros gyfnod o dri mis, cynhaliodd y gwasanaeth dreial o ddewis arall o baratoad coluddyn o'r enw Plenvu.

Mae cyfeiriad grŵp cleifion yn y broses o gael ei ysgrifennu a fydd o'i gymeradwyo, yn caniatáu i'r gwasanaeth gynnig dewis o Moviprep neu Plenvu i'r claf (oni bai bod cyd-afiachusrwydd meddygol yn nodi fel arall).

Mae Plenvu yn hanner cyfaint Moviprep sy'n ei gwneud yn fwy goddefadwy i'w gymryd. Y theori yw efallai na fydd y blas yn gweddu i bawb ond bydd yn haws i'w gymryd gan fod angen llai o gyfaint.

Astudiaeth achos “Gofal Unigol”: Siarter ar gyfer Gwella Profiad y Claf



Ym mis Chwefror 2019, cytunodd y Bwrdd Iechyd y byddai'n cynhyrchu Siarter ar gyfer Gwella Profiad y Claf.

Mae'r siarter a'r poster cysylltiedig wedi'u cyd-gynhyrchu gyda chleifion a'r gymuned ac mae'n seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt wrth gyrchu gofal a thriniaeth, er mwyn galluogi profiad cadarnhaol.

Cymeradwywyd y Siarter gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2020. Bydd yn llywio rhaglen profiad y claf y Bwrdd Iechyd, ei gynlluniau gwasanaeth unigol ar gyfer profiad y claf, ac yn integreiddio adborth profiad y claf yn y gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau.

Am fanylion pellach ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at ddarparu gofal unigol, defnyddiwch y ddolen isod at ein Amcanion a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiadau Blynyddol cysylltiedig <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/page/61233>

Staff ac Adnoddau

Mae'r egwyddor o staff ac adnoddau yn ymwneud â sicrhau y gall pawb yn Hywel Dda ganfod gwybodaeth ar sut mae'r Gwasanaeth Iechyd yn cael ei adnodd, a sut yr ydym yn gwneud defnydd o'r adnoddau hynny.

Cyfran sylweddol o'n hadnoddau yw ein gweithlu sy'n cynnwys yr holl bobl sy'n gweithio yn ein gwasanaethau, i'n gwasanaethau neu gyda'n gwasanaethau, ac mae pob un yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu gwasanaeth gofal o safon ac sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Yn ein datganiad y llynedd, gwnaethom ddweud y byddem yn...	Dyma sut wnaethon ni
Gweithredu'r Rhaglen 'Darpar Arweinwyr Meddygol'  	Gweithredwyd y Rhaglen Darpar Arweinwyr Meddygol yn 2019, gan ddarparu'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen i ddatblygu system gofal iechyd gyda Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn golwg. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddysgu sefydliadol amser go-iawn trwy herio cynrychiolwyr i ddefnyddio'r rhaglen fel modd o ddatrys materion go-iawn yn bennaf yn eu priod wasanaethau. Mae'r rhaglen ar gael i'n hymgyngorwyr, meddygon arbenigol a meddygon cyswllt arbenigol, a meddygon teulu. Ers ei sefydlu yn 2019, mae 2 garfan, pob un yn cynnwys 20 o gynrychiolwyr, wedi cofrestru ar y rhaglen. Mae'r cynrychiolwyr yn adlewyrchu cymysgedd gyfoethog o ran rhyw, ethnigrwydd, arbenigedd, sector a lleoliad. Mae'r model hwn yn lliniaru'r tueddiad ar gyfer meddwl yn unigol, yn cysylltu rhannau eang o'r system gyfan a hefyd yn cynorthwyo i ddatblygu cysylltiadau yn lleol ac yn ehangach.

Mae'r rhaglen yn rhedeg dros gyfnod o 12 mis ac yn ystyried materion amserol sy'n berthnasol i ddatblygiad arweinyddol, tra hefyd yn ystyried gweithrediad swyddogaethau arweinyddol anfeddygol yn y sefydliad.

Dyma ganlyniadau'r rhaglen:

- Dealltwriaeth o'r wybodaeth sylfaenol am agweddau anghlinigol o'r sefydliad a'r system ehangach.
- Mwy o allu i ddylanwadu o fewn meysydd arbenigol cyfrifoldeb clinigol eu hunain a datblygu gallu i ddylanwadu ar draws y system.
- Cefnogaeth cymheiriaid ac awydd ar y cyd i wella gwasanaethau clinigol y tu hwnt i gyfnod y rhaglen.

Ym mis Rhagfyr 2019, cwblhaodd y garfan gyntaf o 20 o gynrychiolwyr y rhaglen. Ar y diwedd, cawsant y cyfle i roi adborth.

Roedd yr adborth yn cynnwys:


“Hyder yn y wybodaeth a gafwyd, gan arwain at fwy o uchelgais bersonol”;

“Awch i ddysgu mwy a dod yn arweinydd gwell”

“Gwerthfawrogiad o'r gwahanol sgiliau a gwybodaeth yn y sefydliad a'r posibilrwydd o gyflawni mwy gyda chysylltiadau agosach a manteisio ar y sgiliau hynny”.

Yn 2020 bydd hi'n gyfle i Garfan 2 Rhaglen Darpar Arweinwyr Meddygol. Mae gwaith i ymgysylltu â charfanau pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan ein timau datblygu meddygol a sefydliadol.

Gellir gweld fideo hyrwyddo byr o rai o'n huwch arweinwyr clinigol yn trafod yr agwedd at arweinyddiaeth feddygol yn y sefydliad, gan dynnu sylw at ein hymrwymiad i ddatblygu gallu arweinyddol staff meddygol

	ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/page/100220
Gweithredu'r Rhaglen 'Meithrin ein Nyrsys' 	Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi datblygu a gweithredu ein rhaglen 'Meithrin ein Nyrsys'. Mae'r rhaglen hon yn gyfuniad o gynlluniau presennol, cynlluniau newydd a chynlluniau arloesol, â'r nod o gynyddu nifer ein nyrsys cofrestredig ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Ein nod yw cynyddu'r nifer o nyrsys cofrestredig i lenwi ein swyddi gwag o fewn y Bwrdd Iechyd, ac mae'r rhaglen 'Meithrin ein Nyrsys' yn cynnig llwybr fforddiadwy i'r byd nyrsio ac yn caniatáu i nyrsys sy'n gweithio mewn meysydd nad ydynt yn rhai aciwt i symud i weithio mewn meysydd nyrsio aciwt. Mae ein Rhaglen Prentisiaeth Gofal Iechyd yn gyfle cyffrous sy'n galluogi unigolion i hyfforddi i fod yn nyrs gofrestrdig trwy ddysgu yn y gweithle. Maen nhw'n dechrau trwy gyflawni Prentisiaeth Sylfaenol mewn Gwasanaethau Cymorth Gofal Iechyd (lefel 2), yn symud ymlaen i Brentisiaeth mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol (lefel 3), cyn dechrau ar addysg prifysgol yn rhan-amser, gan ddechrau ar lefel 4. Mae'r Rhaglen Prentisiaeth Gofal Iechyd yn cyfuno nifer o raglenni mewn un, sy'n dangos ein bod wedi ymrwymo i ddarparu llwybr uniongyrchol i'r byd nyrsio. Nid oes angen i'r rhai hynny sydd ar y rhaglen gyflwyno cais arall ar gyfer y rhaglenni gwahanol ar hyd y ffordd. Pan maen nhw wedi gorffen y rhaglen, maen nhw'n dod yn Nyrs Gofrestredig Gymwysedig. Ym mis Mai 2019, lansiodd Hywel Dda ei Academi Brentisiaeth. Daeth 187 cais i law ar gyfer 40 lle. Mynychodd 113 o ymgeiswyr y dyddiau asesu, a chynigiwyd adborth wyneb-yn-wyneb i bob un – boed yn llwyddiannus neu beidio.

Oherwydd safon yr ymgeiswyr, gwnaed a derbyniwyd 53 cynnig o gyflogaeth (nid y 40 gwreiddiol). Roedd 53% ohonynt yn medru'r Gymraeg ac 17% ohonynt yn ddynion (sy'n llawer uwch na'n cymhareb o 7.8% ar gyfer nyrsys gwrywaidd yn Hywel Dda).

Ers lansio'r Academi Brentisiaeth, mae prentisiaid eraill wedi'u recriwtio i feysydd eraill yn y Bwrdd Iechyd ac mae mwy o grwpiau staff wedi dangos diddordeb.

Dyma rhai fideos o'r Academi Brentisiaeth:

<https://www.youtube.com/watch?v=8ruORYE-Hic&t=41s>

https://www.youtube.com/watch?v=rOXleB_4SGI

<https://www.youtube.com/watch?v=7rzLG07fQII>

Astudiaeth achos “Staff ac Adnoddau”: fferylllydd y flwyddyn

Cyhoeddwyd Meryl Davies, Fferylllydd Gwrthfotog Gofal Sylfaenol, yn Fferylllydd Y Flwyddyn yng ngwobrau mawreddog Hyrwyddo Gofal Iechyd Cymru ym mis Tachwedd.

Cafodd Meryl ei chydabod am ei ffordd arloesol a disgyblaethol o weithio, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phriodoldeb rhagnodi gwrthfotigau. Aeth ati i archwilio meddygfeydd i asesu priodoldeb ac yna ymwelodd â'r meddygfeydd, ynghyd â microbiologydd ymgynghorol, i drafod ac addysgu rhagnodwyr ar ragnodi gwrthfotigau mewn modd priodol. Mae'r broses hon wedi gweld gwelliant mewn rhagnodi gwrthfotigau wrth ail-archwilio ac mae wedi cael adborth gadarnhaol gan feddygfeydd. Bellach, mae cleifion sy'n cael gwrthfotigau amlroddadwy yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y feddyginiaeth yn dal i fod yn briodol, er mwyn osgoi niwed diangen.

Mae Meryl hefyd wedi darparu cyngor ar weithredu peiriannau profion newydd er mwyn helpu i nodi heintiau anadlol bacterial tebygol ac mae wedi cynrychioli'r bwrdd iechyd ar ei ffrwd waith genedlaethol. Mae hi hefyd wedi gweithio gyda Nyrs Atal Heintiau Ceredigion a Nyrs Eiddilwch ar reoli heintiau'r llwybr wrinol mewn cartrefi gofal. Arweiniodd hyn at estyniad o 30% yn y nifer o wrthfotigau a ragnodwyd yn ystod y cyfnod peilot a gostyngiad yn y samplau wrin a anfonwyd i'r labordy. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn y peilot hwn bellach wedi'u mabwysiadu ledled Cymru. Mae cleifion yn elwa o llai o brofion a defnydd mwy priodol o gyfryngau gwrthfacterol.



Mae gan Meryl enw da ymhlith y tîm gweithredol. Mae ganddi ffocws, ysgogiad a brwdfrydedd, mae'n weladwy, mae'n hawdd mynd ati ac mae'n cefnogi clinigwyr ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'n angerddol am ei swydd a chanddi weledigaeth ar sut i'w datblygu.

Astudiaeth achos “Staff ac Adnoddau”: Gwobr Seren Cavell am gyfraniad rhagorol i nyrsio anableddau dysgu

Roedd Uwch Nyrs Anableddau Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dathlu ar ôl ennill gwobr fawreddog am ei chyfraniad rhagorol i nyrsio Anableddau Dysgu. Cyflwynwyd Seren Cavell i Laura Andrews, Arweinydd Proffesiynol Nyrsio Anableddau Dysgu, gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd, Maria Battle.

Mae Seren Cavell yn cydnabod nyrsys, bydwagedd, cymdeithion nyrsio a gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n mynt tu hwnt i'w dyletswyddau proffesiynol ac yn dangos gofal eithriadol.



Enwebwyd Laura am y wobwr gan ei chydweithwyr yn y Gwasanaeth Cyswllt Iechyd Anableddau Dysgu am ei hangerdd a'i hymroddiad tuag at nyrsio anableddau dysgu. Mae wedi bod yn Nyrs Anableddau Dysgu am dros 30 mlynedd a chanddi gyfoeth o wybodaeth a phrofiad, ar ôl gweithio mewn sawl lleoliad yng Nghymru a Lloegr.

Dywed Maria Battle, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd “Mae Laura yn eiriolwr ac yn hyrwyddwr anableddau dysgu. Mae wedi bod yn ddifflino yn codi proffil anableddau dysgu ym mhob maes ac yn cymryd pob cyfle i annog myfyrwyr newydd i'r proffesiwn.

“Mae Laura wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion y rhai hynny sydd ag anabledd dysgu ac mae bob amser yn cynnwys ac yn gwerthfawrogi mewnbwn pobl ag anabledd dysgu i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.”

Astudiaeth achos “Staff ac Adnoddau”: cydnabyddiaeth o ymrwymiad amhrisiadwy i addysgu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol



Roedd Meddyg Teulu o Sir Benfro ymhlith sawl meddyg a deintydd o bob rhan o Gymru a gydnabuwyd am eu hymrwymiad amhrisiadwy i addysgu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Dyfarnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru bum enillydd, ynghyd â thri a ddaeth yn ail, yn seremoni wobrwyo BEST a gynhaliwyd ar yr 2ail o fis Ebrill.

Mae ymroddiad hyfforddwyr meddygol a deintyddol yn sicrhau bod gan GIG Cymru y cyfarpar i ddarparu gofal rhagorol i gleifion, nawr ac i'r dyfodol.

Cyhoeddwyd bod Dr Jennifer Boyce o Grŵp Meddygol Argyle, Doc Penfro yn enillydd ar y cyd â Dr Sara Bodey o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y category gofal sylfaenol.

Fel hyfforddwr Meddygon Teulu, gwobrwywyd Dr Boyce am arddangos proffesiynoldeb ac empathi tra hefyd yn dod â brwdfrydedd i rôl y Meddyg Teulu mewn ardal wledig.

Meddai Julie Rogers, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Addysg a Gwella Iechyd Cymru: “Mae Gwobrau BEST yn cydnabod y meddygon a'r deintyddion hynny sydd ar y llinell flaen yn darparu addysg feddygol a deintyddol ar draws Cymru.

“Gwych o beth yw dathlu y rhai hynny sydd wedi'u henwebu gan feddygon a deintyddion dan hyfforddiant am eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i'w rôl fel hyfforddwyr ac hefyd am eu cefnogaeth.”

Astudiaeth achos “Staff ac Adnoddau”: Sgrinio Ffordd o Fyw



O fis Mai 2019, mae gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Bwrdd Iechyd wedi cynnig sgrinio ffordd o fyw, gan gynnwys asesiad risg clefyd cardiofasgwlaidd, i bob aelod o staff y Bwrdd Iechyd. Awgryma tystiolaeth y canlynol am gynnig sgrinio yn y gweithle:

- Nodi unigolion risg uchel
- Cyfarwyddo triniaeth priodol
- Hyrwyddo ymyrraeth gynnar
- Annog gweithwyr i fabwysiadu newidiadau ffordd o fyw er mwyn lleihau'r risg o glefyd cardiofasgwlaidd

Mae Cymru Iachach (Lywodraeth Cymru, 2018) yn nodi blaenoriaethu iechyd gweithwyr fel cydran allweddol wrth ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth Cymru gydag “ymrwymiad i wneud GIG Cymru yn gyflogwr enghreifftiol yn ei gefnogaeth i lesiant yn y gwaith ac i weithlu iach”.

Adlewyrchir hyn yn strategaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal sef Canolbarth a Gorllewin Iachach; Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda (BIP Hywel Dda, 2018) a gynigiodd “*Mae Iechyd a Llesiant ein staff yn holl-bwysig*”.

Rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2019, sgriniwyd 306 aelod o staff ar draws safleoedd ein pedwar prif ysbyty. Roedd 32% o'r sgrinio hyn ar gyfer staff gweinyddol a chlerigol sy'n 19% o'r gweithlu.

Dyma rai o'r canfyddiadau allweddol:

- Mae 25% o staff o fewn yr ystod BMI Iach, 41% Dros Bwysau, 28% yn Ordew, a 4.5% yn Afiachus o Ordew
- Roedd gan 6% o'r staff (wnaeth lenwi'r adran berthnasol) lefel gymedrol neu uwch o orbryder ac iselder
- Clywodd 44% am Iechyd Hywel gan eraill, a 19% o'r poster

Ein hymrwymiad ar gyfer 2020/21: Gair i Gloi gan Gadeirydd ac Arweinydd Gweithredol y Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad

Fel Cadeirydd ac Arweinydd Gweithredol Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSEAC) y Bwrdd Iechyd, gobeithiwn bod y Datganiad Ansawdd Blynyddol hwn wedi rhoi cipolwg i chi ar ein gwaith, gan ddangos ein hymrwymiad at wella ansawdd ein gwasanaethau a diwallu anghenion ein cleifion ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a'r ffiniau.

Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020 i 2021, rydym wedi cytuno ar nifer o flaenoriaethau cyflawni. Mae'r blaenoriaethau cyflawni sydd yn ein Cynllun Blynyddol yn gysylltiedig â'n hymrwymiad i barhau i wella ein gwasanaethau. Yn 2020 i 2021, byddwn yn ymdrechu i gyflawni'r canlynol:

Cadw'n Iach

Gwella iechyd a llesiant ein poblogaeth trwy:

- cynyddu'r nifer sy'n cael imiwneiddiadau a brechiadau
- cynyddu mynediad at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu

Gofal Diogel

Datblygu'r dangosfwrdd ansawdd ymhellach er mwyn galluogi adrodd o'r Tîm i'r Bwrdd Canolbwyntio gweithgaredd gwella ar niwed y gellir ei osgoi megus thrombosis a gafwyd mewn ysbyty, difrod pwysu, rheoli sepsis a stiwardiaeth gwrthficrobaidd, yn unol â blaenoriaethau ansawdd a diogelwch y sefydliad

Gofal Effeithiol

Adnewyddu ein Fframwaith Gwella Ansawdd i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed a'r dysgu a ddaeth yn ei sgîl

Gofal Urddasol

Ehangu'r prawf teulu a ffrindiau i bob gwasanaeth a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd, a chyhoeddi'r canlyniadau

Gofal Amserol

Cyflwyno'r llwybr canser sengl sy'n cyflymu'r amser at driniaeth yn sylweddol

Cwblhau rhaglen ail-ddylunio'r Gwasanaeth Strôc sy'n cwmpasu'r llwybr strôc cyfan, o atal, trwy ofal strôc aciwt ac adferiad, i fywyd yn dilyn strôc

Gofal Unigol

Cynyddu'r cyfleoedd i wrando a dysgu o brofiadau cleifion yn ein gwasanaethau, yn cynnwys

- craffu a rhannu'r dysgu trwy Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu newydd
- cyhoeddi, gweithredu a gwerthuso ein siarter profiad y claf

Staff ac Adnoddau

Cyflwyno Rhaglen Datblygu Sefydliadol i symud ymlaen â'r sgiliau a'r offer rheoli newid sydd eu hangen arnom i feithrin y diwylliant i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, wrth fyw ein gwerthoedd ac ymgorffori ffordd Hywel Dda.

Mae QSEAC yn bwyllgor statudol o'r Bwrdd. Ei brif bwrpas yw craffu, asesu a cheisio sicrwydd mewn perthynas ag effaith, ansawdd a chanlyniadau iechyd y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd. Mae cylch gorchwyl llawn y pwyllgor i'w weld ar ein gwefan <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/opendoc/324367>. Â'r prif bwrpas hwn mewn golwg, yn ei gyfarfodydd trwy gydol 2020 i 2021 bydd QSEAC yn cael ddiweddariadau ar y blaenoriaethau ansawdd allweddol, fel rhan o'n hymrwymiad i ddysgu a gwella yn barhaus er budd ein cymunedau a'n staff.

Rydym yn gweithio'n galed i gyflawni ein nodau yng nghyd-destun COVID-19, ond o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, efallai y bydd angen addasu'r blaenoriaethau wrth i'r flwyddyn ddatblygu. Mae pandemig COVID-19 yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio trwy gyfnod anodd iawn lle mae cynlluniau ar gyfer gofal wedi'u gwneud, yn cael eu gweithredu'n gyflym a'u hail-asesu bob dydd. Mae staff wedi dangos, ac yn dal i ddangos, ymroddiad ac ymrwymiad i sicrhau bod ein poblogaeth yn cael y gofal brys ac argyfyngol sy'n ofynnol. Ar yr un pryd, mae pobl leol yn darparu cefnogaeth hanfodol i'r Gwasanaeth Iechyd trwy ddilyn mesurau'r llywodraeth i fynd i'r afael â'r feirws. Maent hefyd yn dangos eu diolchgarwch mewn amryw ffyrdd, sy'n golygu cymaint i'n staff. Felly, dymunwn adleisio a phwysleisio'r diolch a roddwyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn y cyflwyniad i'r Datganiad Ansawdd Blynyddol hwn. Diolch o galon am eich ymroddiad a'ch ymrwymiad.



John Gammon
(Aelod Annibynnol)

**Cadeirydd – Pwyllgor Sicrwydd
Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
(tan fis Mawrth 2020)**



Anna Lewis
(Aelod Annibynnol)

**Cadeirydd – Pwyllgor Sicrwydd
Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
(o fis Ebrill 2020)**



Mandy Rayani

**Cyfarwyddwr Gweithredol
Nyrsio, Ansawdd a
Phrofiad y Claf**

Gwasanaethau Cefnogi Cleifion (adborth a chwynion): Rhannu eich profiadau

Mae ansawdd yn gefn i bopeth a wnawn, ac er mwyn i ni barhau i wella hoffem wybod am eich profiadau diweddar o ddefnyddio ein gwasanaethau.

Gallwch wneud hyn trwy gysylltu â'n gwasanaethau cefnogi cleifion:

Rhif ffôn: 0300 0200 159

Ebost: hdhb.patientsupportservices@wales.nhs.uk

Ar-lein: [Gan ddefnyddio ein ffurflen adborth](https://hduhb.nhs.wales/healthcare/services-and-teams/patient-support-services-complaints-feedback/) sydd ar ein gwefan <https://hduhb.nhs.wales/healthcare/services-and-teams/patient-support-services-complaints-feedback/>

Post: Freepost Feedback @ Hywel Dda

Os ydyw'n bwysig i chi, mae'n bwysig i ni. – Rydym yn gwrando.



**If it matters to you
- it matters to us.**

We are listening.

